

MORRIS, WILLIAM (fl. 1829-73?), cynorthwywr i'r Comisiynwyr Addysg yng Nghymru, 1846-7, awduron Llyfrau Gleision enwog 1847

Enw: William Morris

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cynorthwywr i'r Comisiynwyr Addysg yng Nghymru, 1846-7, awduron Llyfrau Gleision enwog 1847

Maes gweithgaredd: Addysg; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Thomas Richards

Er pob ymdrech, methwyd a chael allan i'r dim pa bryd y ganwyd ef na pha bryd y bu farw. Yn ôl Wilkins, bu'n feistr ar ysgolion preifat yn ardal Merthyr Tudful yng Nghefn-coed-y-cymer a Chae-pant-tywyll, a chanddo atgofion difyr am ei brofiadau. Geilw leuan Gwynedd ([Evan Jones](#)) ef yn 'Ddissenter', ond nid oedd yn ' Ddissenter ' yn ystyr [leuan](#) i'r gair; geilw un arall ef yn Fethodist, gan gymryd yn ganiataol mai Weslead ydoedd. Mewn gwirionedd, Methodist Calфинаidd gweithgar ydoedd, yn enwedig gyda'r ysgolion Sul. Bu'n gohebu gydag [Ebenezer Richard](#) o Dregaron yn 1829 ynghylch yr ysgolion hyn, ac yn 1830 ynghylch y cyfarfodydd dau-fisol lle y cyfarfyddai cynrychiolwyr i edrych i mewn i stad yr achos a chateceisio'r gwahanol ddosbarthiadau. Cyn hyn, yn 1826, cyhoeddasai *Cyfarwyddwr i Athrawon Ysgolion Sabothol*, 16 td, ac iddo ef (yng nghwmni un arall) y daeth y drychfeddwl yn 1827 i ddod a chylchgrawn misol allan er lles yr ysgolion. Yr *Athraw* oedd hwn, a bu'r ddau yn ei gyd-olygu hyd nes, yn 1829, ei gymryd drosodd gan [William Rowlands](#) (1807 - 1866). Y mae'n hollol glir oddi wrth dudalennau'r *Athraw*, mai Morris oedd ysgrifennydd y cwrdd dau-fisol a goruchwyliwr y llyfrfa; y mae'n amlwg hefyd fod [Rowlands](#) wedi gweithredu fel cynorthwywr iddo, tua 1824-5, yn ysgol y Cefn. Yn ôl *Directory* Robson am 1840 yr oedd Morris yn gynrychiolydd lleol i'r Anghydfurfwyr Protestannaidd yn ardal Merthyr, hy, yn ohebydd lleol i'r Dissenting Deputies yn Llundain. Tybed a wyddai'r Comisiynydd Lingen, Eglwyswr rhonc newydd ddod o Rydychen, fod ei gynorthwywr yn Anghydfurfiwr mor drwm, yn Galfynydd mor selog? Weithiau teimlir fod Morris yn tueddu i anwybyddu ffeithiau er mwyn ymddangos yn amhleidiol. Ac yntau y fath Fethodus ac yn dod o'r ardal, cwta iawn yw ei werthfawr ogiad o ysgolion Sul Methodistaidd Merthyr a Dowlais. Y mae'n wir fod Lingen wedi dweud yn blaen na fedrai ef a'i gynorthwywr ymweled â phob ysgol, fod yn rhaid dewis. Ond gadawodd Morris Gapel Hermon allan yn gyfan gwbl, gydag ysgol Sul dros 600. Ymwelodd â'i ysgol ei hun yng Nghaepant-tywyll, a gadewir ni i ddyfalu mai ysgol gan y Methodistiaid ydoedd am fod y *Rhodd Mam* yn cael ei arfer yno. Beth bynnag a ddywedir, erys yn ffaith mai Morris oedd y gorau o'r cynorthwywyr, fel y prawf yn enwedig ei adroddiadau am ysgolion Sir Gaerfyrddin - llawn, siarp ar brydiau, amhleidiol bob amser.

Daeth allan o beiriau 1846-7 a'r trafodaethau â Lingen heb amharu dim ar ei anghydfurfiaeth. Yn *Hanes Methodistaeth Cymru*, iii, 82 (1856) cyfeirir ato fel y blaenor adnabyddus o Bant-tywyll, ei sel a'i ffyddlondeb gyda phob achos yn gydnabyddedig gan bawb. Ni rydd Wilkins unrhyw ddyddiad i'r atgofion a glywodd gan Morris. Nid oes air o farwgoffa iddo ar dudalennau'r *Drysorfa*. Yr oedd yn fyw yn 1868, yn ôl *Directory* Slater; ac os oes coel i'w roddi ar gyfeiriad ato yng *Nghofiant Dr Rowlands*, yr oedd yn fyw yn 1873.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Reports of the commissioners of inquiry into the state of education in Wales, appointed by the Committee of council on education, in pursuance of proceedings in the House of commons, on the motion of Mr. Williams, of March 10, 1846, for an address to the Queen, praying Her Majesty to direct an inquiry to be made into the state of education in the principality of Wales, and especially into the means afforded to the labouring classes of acquiring a knowledge of the English language (Llundain 1847), 1847, i (Carms, Glam, and Pembroke, passim)

Bywyd y Parch. Ebenezer Richard (Llundain 1839), 121-3, 156-7

Cofiant y diweddar Barch. William Rowlands, D.D., Utica, Efrog Newydd, yr hwn a fu yn pregethu yr Efengyl yn nghyfundeb y Trefnuddion Calфинаidd am yn agos i 41 o flynyddoedd, ac yn olygydd y 'Cyfaill' am 29 o flynyddoedd. Bu farw Hydref 27, 1866, yn 59 mlwydd oed (Efrog Newydd 1873), 45

Charles Wilkins : *The history of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tydfil 1867), (1908 ed), 507, 511

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20751836](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

